# County Council (C)

Man Cyfarfod
**Council Chamber - County Hall, Llandrindod Wells**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 23 Chwefror 2017**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC14- 2017 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION | CC15- 2017 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd y lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2017 yn gofnod cywir.

(Tudalennau 7 - 24)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC16- 2017 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd oddi wrth Aelodau mewn cysylltiad ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC17- 2017 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** | **CC18- 2017** |

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **TROSGLWYDDIADAU YN DISGWYL CYMERADWYAETH Y CYNGOR** | **CC19- 2017** |

Ystyried trosglwyddiad cyfalaf y mae angen i'r Cyngor ei gymeradwyo.

(Tudalennau 25 - 28)

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **DATGANIAD BLYNYDDOL DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW 2017/18** | **CC20- 2017** |

Ystyried Datganiad Blynyddol Darpariaeth Lleiafswm Refeniw 2017/18.

(Tudalennau 29 - 38)

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **ADRODDIAD Y PANEL CRAFFU ARIANNOL** | **CC21- 2017** |

Ystyried adroddiad Panel Craffu Ariannol i'r Cabinet ynglŷn â'r cynigion ar y gyllideb ar gyfer 2017/18.

(Tudalennau 39 - 40)

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **CYLLIDEB AR GYFER 2017-18, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-2020 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2017-2021** | **CC22- 2017** |

Ystyried y Gyllideb ar gyfer 2017-18, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-2020 a Rhaglen Gyfalaf 2017-2021.

(Tudalennau 41 - 934)

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORYDD SIR PETER MEDLICOTT A'R CYNGHORYDD SIR MICHAEL WILLIAMS** | **CC23- 2017** |

Rydym ni, y rhai y mae ein henwau wedi'u torri isod, yn galw ar Gyngor Sir Powys i wrthwynebu cau banc HSBC yn Nhref-y-Clawdd a banciau a sefydliadau tebyg eraill mewn trefi bychain a chymunedau.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Peter Medlicott

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORYDD SIR STEPHEN HAYES A'R CYNGHORYDD SIR KATH ROBERTS-JONES** | **CC24- 2017** |

Cytundeb Trefaldwyn

Byddwn eleni'n dathlu 750 mlynedd ers Cytundeb Trefladwyn, a luniwyd ar 29 Medi 1267. Roedd y cytundeb, rhwng Harri'r III o Loegr a Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn ein Llyw Olaf), yn cydnabod Llywelyn yn Dywysog Cymru yn ffurfiol.

Llofnodwyd y cytundeb yn Rhydwhyman, sef rhyd ar Afon Hafren rhwng Trefaldwyn ac Aberriw. Ystyrir cytundeb Trefaldwyn yn un ag iddo arwyddocad hanesyddol a chenedlaethol gan mai dyma'r unig dro y cafodd Tywysog Cymru a anwyd yng Nghymru ei gydnabod yn ffurfiol gan frenin yn Lloegr.

Cynnig i'r Cyngor

Bod y Cyngor yn ystyried a yw'n dymuno hyrwyddo neu gefnogi digwyddiadau priodol i nodi 750 mlynedd ers Cytundeb hanesyddol Trefaldwyn ym mis Medi 2017 ac os felly, sut y mae'n dymuno gwneud hynny.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Stephen Hayes

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** | **CC25- 2017** |

12.1. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi benthyciad o £1,000,000 i'r Cyngor ar gyfer gweithgareddau arfaethedig yn Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd fel rhan o drydydd cyfnod Cronfa Fenthyciadau Canol Trefi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

A wnaiff y Cabinet ddarparu manylion i'r Cyngor ar sut y mae'n bwriadu defnyddio'r arian, pa brosiectau yn Aberhonddu fydd yn cael cymorth, a sut y bydd yn ymgysylltu â'r aelodau lleol i ddynodi'r blaenoriaethau?

(Tudalennau 935 - 936)

12.2. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Mae Llywodraeth lafur Cymru wedi cytuno ar gronfa i alluogi awdurdodau lleol i gynnig parcio am ddim yng nghanol trefi. A wnaiff y Cabinet fanylu ar sut y bydd yn trefnu i gynnig y parcio am ddim ym Mhowys?

(Tudalennau 937 - 938)

12.3. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Addysg gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

Mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol a gyflwynwyd yn ddiweddar iawn

A wnaiff yr Aelod Portffolio dros Addysg egluro a oes yna Grant Amddifadedd Disgyblion yn rhan o'i Gyllideb Ddirprwyedig, ac felly bod yn rhaid iddo gydymffurfio â Chynllun Powys ar gyfer Ariannu Ysgolion?

Rhoddodd yr Aelod Portffolio dros Addysg yr ateb a ganlyn:

"Mae'r grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei gynnwys fel rhan o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Mae'n rhaid i'r ysgol gadw at delerau ac amodau'r grant a'r Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion, sy'n cynnwys y canllawiau canlynol ar grantiau:

2.12 Grantiau a chynlluniau canolog

Awdurdodir yr Awdurdod i sicrhau bod symiau ar gael i ysgolion o gronfeydd canolog, ar ffurf dyraniadau sy'n ychwanegol at, ac ar wahân i gyfrannau cyllideb yr ysgolion hynny. Bydd dyraniadau o'r fath yn destun amodau sy'n nodi diben neu ddibenion yr arian, ac er nad oes angen i'r amodau hyn atal trosglwyddiad (ac eithrio lle mae grant penodol yn talu'r arian yma ac na chaniateir i'r Awdurdod ei hun drosglwyddo), ni ddylid gwneud hyn i'r graddau bod y dyraniadau'n cael eu cymhathu i gyfran cyllideb yr ysgol.

Mae gofyn i ysgolion gadw eu cofnodion cyfrifo yn y fath fodd fel eu bod yn gallu dangos, lle bo modd, eu bod wedi cydymffurfio â'r gofyniad i wario dim ond at y dibenion y cyflwynir yr arian, ac ni ddylid ei drosglwyddo i gyfran y gyllideb."

A gaf i felly ofyn i'r Aelod Portffolio dros Addysg ei gwneud yn eglur, oherwydd bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei gynnwys fel rhan o gyllideb ddirprwyedig ysgol bod yn rhaid iddo hefyd gydymffurfio â rheoliad 5.2 y cynllun ar gyfer ariannu ysgolion, ac felly na ellir defnyddio'r arian i ddarparu modd o deithio ar gyfer yr ysgol?

(Tudalennau 939 - 940)

12.4. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd**

**Sir Gary Price**

A wnaiff yr Aelod Portffolio dros Gyllid ddweud wrthyf beth oedd cyfanswm cyfunol canran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor a Band D yn ystod tymor presennol y Cyngor?

(Tudalennau 941 - 942)

12.5. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Lyfrgelloedd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Mae llawer o bryder a dryswch yn lleol ynghylch y graddau y bydd y Cyngor yn ariannu'r Gwasanaethau Llyfrgell yn y dyfodol.
Waeth pwy fydd yn eu rhedeg a lle y cânt eu lleoli, allwch chi gadarnhau lefel yr arian y bydd y gwasanaethau llyfrgell yn ei dderbyn yn y dyfodol oddi wrth y Cyngor, o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol, ac am gyfnod o faint y bydd hyn yn parhau? Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw Cynghorau Tref a grwpiau cymunedol yn cael eu hannog i gyfrannu at redeg y llyfrgelloedd oherwydd mae angen gwarant arnynt fod Powys yn ymrwymedig i gadw'r ddarpariaeth leol statudol a hanfodol hon.

(Tudalennau 943 - 944)

12.6. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.**

Fel cyngor mae'n rhaid i ni dalu trethi annomestig ar ein hadeiladau a than y rheolau presennol, ni allwn ninnau, yn ogystal â chynghorau tref a chymuned, wneud cais am ryddhad oddi wrth hyn ar ein heiddo: nid yw hyn yn  berthnasol ond i elusennau a sefydliadau dielw. Bydd cyfraddau annomestig yn cael eu casglu ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2016/17 (eleni) yn awgrymu byddwn yn casglu £28.1m a byddwn yn derbyn swm ailddosbarthu o £40.5miliwn.

Mae un o'r trigolion wedi mynegi pryder ynghylch cynigion y cyngor i symud adeiladau i'r Cynghorau Tref a Chymuned, ac wedi gofyn am eglurhad ar y trethi annomestig.

Bydd y Cyngor Sir yn dod o hyd i arbedion yn y gyllideb ar gyfer costau rhedeg trwy symud y cyfraddau annomestig draw i'r Cynghorau Tref a Chymuned. Wrth iddo wneud hyn, bydd y Cyngor yn parhau i dderbyn ailddosbarthiad yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, a fydd yn dangos bod llinell arall yn y gyllideb yn cael ei gynorthwyo. Mae hyn yn arwain at ganfyddiad bod CSP yn derbyn 2 linell arbedion o fewn y gyllideb.

Mae hyn ar draul cymunedau lleol y mae disgwyl iddyn nhw ariannu'r cyfraddau annomestig trwy eu praeseptiau cyngor tref neu gymuned. Dyma sy'n gyfrifol am y canfyddiad bod cymunedau lleol sy'n gofalu am wasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig yn cael eu trethu ddwywaith gan fod yn rhaid iddynt dalu treth y cyngor a'r dreth gymunedol. Mae hyn yn digwydd pan fydd y Cyngor yn canoli gwasanaethau, er enghraifft gwasanaethau Llyfrgell ac ati, ym mhrif drefi

ein sir, gan ofyn i'w cynghorau cymuned gyfrannu, a gadael y cyfan i'r cymunedau llai.

A wnaiff yr aelod portffolio esbonio i'r cyngor sut y bwriada'r cyngor gynorthwyo cymunedau sydd am ofalu am wasanaethau sy'n destun cyfraddau Annomestig?

(Tudalennau 945 - 946)

12.7. **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Wasanaethau Oedolion a Phlant gan y Cynghorydd Sir Gemma Bowker**

A wnaiff yr Aelodau Portffolio dros Wasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant ddarparu manylion ynghylch lefel statudol y trefniadau staffio y tu allan i oriau, a'r patrymau staffio y mae CSP yn eu defnyddio y tu allan i oriau arferol; a darparu gwybodaeth sy'n esbonio a fu unrhyw adegau yn ystod y 12 mis diwethaf pan mae'r lefelau staffio hynny wedi bod disgyn islaw lefelau statudol neu ddiogel?

(Tudalennau 947 - 948)